**Sesiwn 1999-2000 Rhif 47**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 8 CHWEFROR 2000

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf

**2.34pm**

**Mater o Drefn**

1. Peter Black

Mynegodd ei siom nad oedd agenda a phapurau'r Cyngor Partneriaeth a gyfarfu'r diwrnod blaenorol ar gael i'r Aelodau (heblaw Aelodau'r Pwyllgor) na chwaith i'r cyhoedd na'r wasg ar wefannau'r Cynulliad.

Cytunodd y Prif Ysgrifennydd ei bod yn bwysig bod y papurau hyn ar gael a bydd yn ymchwilio i'r mater. Atgoffwyd y Cynulliad gan y Llywydd nad Swyddfa'r Llywydd sy'n gyfrifol am wasanaethu'r Cyngor Partneriaeth.

2. Jocelyn Davies

Mynegodd ei gofid bod teitl y ddadl ar yr ymateb i raglen ddeddfwriaethol y Deyrnas Unedig yr wythnos flaenorol wedi newid o ymateb y "Weithrediaeth" i ymateb "y Weinyddiaeth" i ymateb "y Cynulliad". Gofynnodd fod y pleidleisiau a'r trafodion yn cael eu newid i ymateb "y Weinyddiaeth".

Eglurodd y Trefnydd na fu'n fwriad ganddo i gamarwain. Dyma oedd y tro cyntaf i'r Cynulliad drafod y mater a bod yna wersi i'w dysgu o'r ffordd yr aed i'r afael ag ef. Bydd yn cyflwyno adroddiad ar y mater i'r Pwyllgor Busnes yr wythnos nesaf.

3. Jocelyn Davies

Gofidiai ynghylch yr iaith a ddefnyddiwyd gan Rod Richards pan ddywedodd fod Nick Bourne yn "wenieithus".

Dywedodd y Llywydd nad oedd o’r farn ei bod yn iaith briodol o dan amodau y Protocol Ymddygiad yn y Siambr. Byddai’n atgoffa Mr Richards (nad oedd yn bresennol yn y Siambr pan drafodwyd y mater hwn).

4. Helen Mary Jones

Mynegodd hithau ei gofid ynghylch yr iaith a ddefnyddiwyd – cyfeiriad at drais yn y cartref.

Dywedodd y Prif Ysgrifennydd iddo ddefnyddio’r trosiad mewn modd athronyddol – heb unrhyw fwriad drwg.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Llywydd i fod yn ofalus gyda’u dewis o sylwadau a throsiadau.

**2.41pm**

**Datganiad Busnes: y Trefnydd**

Cytunwyd ar y datganiad busnes.

**2.43pm**

**Cadarnhau Cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19.5.**
Cynnig bod y Cynulliad: yn unol â Rheol Sefydlog 19.5, yn cadarnhau cyllideb blwyddyn ariannol 2000-01 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 1 Chwefror gan yr Ysgrifennydd Cyllid, Edwina Hart.

Cymerwyd pleidlais:

O blaid 28

Ymatal 15

Yn erbyn 14

Cyfanswm 57

Cymeradwywyd y cynnig

**3.49pm**

**Cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.9 (er mwyn caniatau dadl ar yr Adroddiad Cyllid**

**Llywodraeth Leol fel mater brys sydd o bwys cyhoeddus)**

Cymerwyd pleidlais:

O blaid 56

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 56

Cymeradwywyd y cynnig

**3.52pm**

**Dadl ar yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol drafft yn unol â Rheol Sefydlog 19.10.**
Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.11, ac fel mater brys sydd o bwys cyhoeddus, y mae'r Cynulliad wedi'i awdurdodi i'w ystyried o dan reol sefydlog 6.9, yn cymeradwyo'r Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar gyfer blwyddyn ariannol 2000-01 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Llun 7 Chwefror 2000 gan yr Ysgrifennydd Cyllid, Edwina Hart.

**4.10pm**

**Mater o Drefn**

Mynegodd Alun Cairns ei ofid ynghylch cyfeiriadau at Aelodau'r 'Rhestrau Rhanbarthol' a'u statws israddol o fewn y Cynulliad.

Dywedodd y Llywydd nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw gyfeiriadau dilornus at yr aelodau hyn wedi'u gwneud ond cytunodd i archwilio'r cofnod i gadarnhau hynny.

**Cymerwyd pleidlais:**

**O blaid 28**

**Ymatal 16**

**Yn erbyn 14**

**Cyfanswm 58**

Cymeradwywyd y cynnig

**4.59pm**

**Dadl Fer**
**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Cyngor Allforio Cymru**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.22pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 9 Chwefror 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

Papurau sydd wedi’u Gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ers Cyfarfod Llawn diwethaf y Cynulliad

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 7 CHWEFROR 2000**

Report of the Legislation Committee - The Local Government (Best Value) (Exemption) (Wales) Order 2000 (Nid oes copi Cymraeg ar gael eto)

Local Government Finance Report 2000-01 (amended) (Nid oes copi Cymraeg ar gael eto)

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 3 CHWEFROR 2000**

Adroddiad Y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) Cymru) 1999
Adroddiad Y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Eithrio) (Cymru) 2000
Adroddiad Y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 2 CHWEFROR 2000**

The Milk Development Council (Amendment) Order 2000 (Nid oes copi Cymraeg ar gael eto)
The Milk Development Council (Amendment) Order 2000 - Explanatory Note (Nid oes copi Cymraeg ar gael eto)
The Milk Development Council (Amendment) Order 2000 - Regulatory Impact Assessment (Nid oes copi Cymraeg ar gael eto)

Canllawiau ar Faterion Gwedduster wrth Drafod Gwaith Achos Cynllunio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru - Cod Ymddygiad ar Gyfer Aelodau'r Panel Penederfyniadau Cynllunio
Canllawiau ar Faterion Gwedduster wrth Drafod Gwaith Achos Cynllunio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru - Cod Ymddygiad ar Gyfer Aelodau'r Cynulliad